
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

**Teithiau cerdded hygyrch...**
**Accessible walks...**

@walescoastpath
llwybrarfordircymru.gov.uk | walescoastpath.gov.uk




# Gardd Fotaneg Treborth i Ystad y Faenol

# Treborth Botanic Garden to Faenol Estate

## Gwybodaeth am y Llwybr:

Llwybr llinol sy'n dilyn Llwybr Arfordir Cymru yng Ngogledd Cymru, sy'n mynd heibio Gardd Fotaneg Treborth (sydd yng ngofal Prifysgol Bangor), coetir, golygfeydd o'r Fenai a Phont Britannia cyn gorffen ar Ystad y Faenol sydd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Gallwch ddilyn llwybr cylchol byrrach hefyd trwy ddilyn Llwybr Arfordir Cymru am 1 cilomedr ac yna dringo'n raddol i'r gerddi botaneg.

## Route Information:

A linear route following the Wales Coast Path in north Wales, taking in Treborth Botanic Garden (maintained by Bangor University), woodland, views of the Menai Strait and Britannia Bridge before ending on the Faenol Estate maintained by the National Trust.

You can follow a shorter, circular route can also by following the Wales Coast Path for 1 kilometre and then ascending gradually to the botanic gardens.

**Dechrau:** Gardd Fotaneg Treborth.

**Gorffen:** Stad y Faenol (y tirnod agosaf ar fap yw "Boathouse Covert").

**Pellter:** Mae'r llwybr llinol yn 5.5 cilomedr neu 4 milltir (yno ac yn ôl).

**Amser:** Caniatewch 2 i 3 awr.

**Wyneb:** Cerrig cywasgedig gydag arwyneb rhydd mewn rhai mannau. Rhywfaint o dir anwastad.

**Llethrau:** Mae gan y llwybr rai llethrau a chambr serth mewn rhai mannau ac efallai y bydd angen cymorth ar rai defnyddwyr.

**Proffil y Llwybr:** Mae proffil y llwybr yn dangos gweddlun ohono i un cyfeiriad yn unig, o'r dechrau i'r diwedd.

**Lled y Llwybr:** 1.5 metr yn y man culaf.

**Giât Mochyn:** Ceir un giât mochyn wrth fynedfa'r llwybr o'r ardd fotaneg. Ceir giât o'r llwybr i'r ffordd wrth i chi ddod i mewn i'r Felinheli. Rhwystrau eraill – Mae grid gwartheg a giât fetel addurnedig gul (**tua 1 metr o led**) ym mhen arall y llwybr ar Stad y Faenol. Efallai y bydd hyn yn golygu y bydd angen i rai ymwelwyr droi yn ôl yn y fan hon.

### Gwybodaeth i Ymwelwyr:

Ar gyfer llywio â lloeren defnyddiwch: Gardd Fotaneg Treborth, Bangor, LL57 2RX.

**Cludiant Cyhoeddus:** Ewch i www.traveline-cymru.info i gynllunio eich taith.

**Parcio:** Mae lleoedd parcio yn gyfyngedig gyda dau fae anabl wrth fynedfa Gardd Fotaneg Treborth. Darllenwch fwy am Ardd Fotaneg Treborth https://treborth.bangor.ac.uk/

Mae nifer o leoedd parcio i'r anabl ym mhen Felinheli o'r llwybr ar hyd Ffordd y Traeth.

**Toiledau:** Nid oes toiledau hygyrch yng Ngardd Fotaneg Treborth ar hyn o bryd. Ceir toiledau yn archfarchnad Waitrose Porthaethwy (dros y bont ar Ynys Môn) ac yn yr Antelope Inn ar ochr Treborth i Bont y Borth. Ar ben arall y llwybr ceir toiledau hygyrch yn nhref Y Felinheli ar Ffordd y Traeth. Rydym bob amser yn argymell cario map papur wrth gefn, yn ogystal â defnyddio ap mapio ar eich ffôn os nad ydych yn gyfarwydd â'r rhan hon o Lwybr Arfordir Cymru.

**Start:** Treborth Botanic Garden.

**Finish:** Faenol Estate (nearest landmark on a map is "Boathouse Covert").

**Distance:** The linear route is 3 kilometres or 2 miles (there and back).

**Time:** Allow 2 to 3 hours.

**Surface:** Compacted stone with a loose surface in some places. Some uneven ground.

**Slopes:** The route has some slopes and steep camber in some places and some users may need help.

**Route profile:** The route profile shows the route elevation in one direction only, from start to finish.

**Path width:** Minimum is 1.5 metre.

**Kissing Gate:** There is one kissing gate at the entrance to the route from the botanic garden.

There is a gate from the path onto the road as you enter Felinheli. Other barriers – There is a cattle grid and a narrow ornate metal gate (**approximately 1 metre width**) at the other end of the route on the Faenol Estate. This may mean some visitors will need to turn back at this point.

### Visitor Information:

**For satellite navigation please use:** Treborth Botanic Garden, Bangor, LL57 2RX.


**Public Transport:** Please see www.traveline-cymru.info to plan your journey.

**Parking:** There is limited parking with two disabled bays at the entrance to Treborth Botanic Garden. Read more about Treborth Botanic Garden https://treborth.bangor.ac.uk/

There are several disabled parking spaces at the Felinheli end of the route along Beach Road.

**Toilets:** There are no accessible toilets at Treborth Botanic Garden at present. Toilets are in Menai Bridge Waitrose supermarket (across the bridge on Anglesey) and the Antelope Inn on the Treborth side of the Menai Suspension Bridge. At the other end of the route there are accessible toilets in the town of Felinheli on Beach Road. We always recommend carrying a paper map as a back up to a phone-based mapping app if you're not familiar with this area of the Wales Coast Path.

## Proffil y llwybr/Route Profile




Pellter/Distance (m)



EXPERIENCE COMMUNITY

Datblygwyd y daith gerdded hon mewn partneriaeth ag **Experience Community**, sef Cwmni Buddiannau Cymunedol nid-er-elw sy'n helpu pobl anabl i gael mynediad i'r awyr agored drwy amrywiaeth o weithgareddau cerdded, beicio, cadwraeth a chelfyddydau cynhwysol.

This walk was developed in partnership with **Experience Community** is a not-for-profit Community Interest Company that helps disabled people access the outdoors through a range of inclusive walking, cycling, conservation and arts activities.